Hawdd ei Ddeall

Mawrth 2024

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Gogledd Cymru
# Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol

## Cynllunio gyda'n gilydd i wella pethau

Datblygwyd gan Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd




UK PBS Alliance

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council
Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Cyngor Gwynedd Council
wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol wrecsam
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Ni yw Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd

North Wales Together
Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
*Seamless services for people with Learning Disabilities*
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*

Rydym yn gweithio ar ran Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i wneud pethau'n well i bobl ag anableddau dysgu ar draws Gogledd Cymru.




**Beth ydyn ni'n ceisio ei wneud?**

Rydym eisiau cefnogi pobl a safydliadau i sicrhau fod pobl sydd ag anableddau dysgu yn gallu byw bywyd da.

Un ffordd yr ydym yn dymuno gwneud hyn yw i gael mwy o Gefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol da yng Ngogledd Cymru.

Byddwn yn ei alw'n CYC o hyn ymlaen.



Rydym yn ceisio gwneud hyn drwy:

Ddweud wrth lawer o bobl am CYC a pham ei fod yn dda i bobl a gwasanaethau.




Helpu staff i gael hyfforddiant CYC a rhoi arian i sefydliadau dalu am hyn.



Helpu bobl i weithio gyda'i gilydd i gael CYC da yn eu cwmni.



Sefydlu grwpiau ar-lein mewn mannau fel Facebook i adael i bobl â diddordeb mewn CYC i siarad a helpu ei gilydd.



Sefydlu cynhadledd CYC blynyddol i staff a defnyddwyr gwasanaeth.



**Beth yw CYC?**

Mae Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol (neu CYC yn fyr) yn ffordd o ddarparu cefnogaeth i bobl.

Mae'n helpu pobl gydag Anableddau Dysgu sydd hefyd ag ymddygiad sy'n achosi pryder.



**Beth yw ymddygiad sy'n achosi pryder?**

Maent yn ymddygiad sy'n ei gwneud yn anoddach i unigolyn neu bobl o'u hamgylch i gael bywyd da.



Gallai'r rhain gynnwys:

Dychryn pobl eraill



Anafu pobl eraill



Anafu eich hunan



Rhedeg i ffwrdd



Torri pethau



Gwneud pethau peryglus



Pan fydd y pethau hyn yn digwydd, maent yn gallu eich atal rhag cael beth rydych ei angen neu rhag gwneud pethau rydych yn dymuno eu gwneud.

Mae CYC da yn gallu helpu.



**Sut mae CYC yn gweithio?**

Mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall pam bod ymddygiad o bryder yn digwydd.

Maent yn gweithio gyda'i gilydd i weld sut gallant helpu.



Mae hyn yn cael ei ysgrifennu mewn cynllun CYC.



Mae'r cynllun CYC yn cael ei lunio gyda chi.



Mae'r cynllun yn dweud sut mae staff yn gallu eich helpu chi i gael bywyd da.



Mae eich cynllun CYC yn cynnwys targedau fel

- dysgu sgiliau newydd
- eich helpu i wneud mwy o'ch hoff weithgareddau



Weithiau mae rhywbeth yn dal i allu mynd o chwith.

Mae'r cynllun yn dweud beth sy'n digwydd i chi pan fyddwch yn dechrau teimlo'n ofidus neu'n anhapus.

Mae'r cynllun yn dweud wrth staff beth i'w wneud i helpu i'ch tawelu eto.



Mae'r cynllun yn dweud wrth staff sut i helpu i wneud i chi deimlo'n well wedyn.

Mae staff yn gwybod ei bod yn bwysig bod yn garedig.



Mae staff yn gwybod i

- beidio gweiddi arnoch chi.

neu

- eich cosbi chi



Mae cynllun CYC da yn golygu fod pawb yn gwybod:



- beth sy'n eich gwneud chi'n hapus
- y pethau rydych eisiau ei wneud




- beth ydych ei angen
- ffyrdd o gael beth rydych ei angen



Dysgu

- dysgu pethau newydd



- beth sy'n peri gofid i chi



- pethau sy’n gwneud i chi deimlo’n well



- sut i gadw pawb yn ddiogel




**Mae CYC da yn golygu:**

- darganfod beth rydych ei angen



- ceisio helpu drwy gydweithio




- bydd pethau yn gwella, a
- byddwch yn cael bywyd gwell



- bydd y bobl sy'n eich cefnogi chi, fel eich teulu neu'r staff, yn cael bywyd gwell hefyd




Os hoffech ein helpu i gael mwy o CYC da yng Ngogledd Cymru neu os hoffech fwy o wybodaeth.

Gallwch gysylltu a **ldtransformation@flintshire.gov.uk**

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

bild

Hoffem ddiolch i BILD am adael i ni ddefnyddio eu gwybodaeth a'u graffeg yn y daflen hon.

PHOTO SYMBOLS®
Licence Number 690498011191

made with photosymbols®



Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg - gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.

This document is also available in Welsh - see Welsh page on our website.